



# Tyfu Canolbarth Cymru Cylchlythyr mis Mehefin

## Beth sy'n digwydd y mis hwn?

Mehefin yw'r amser lle mae twf a datblygiad o'n cwmpas i gyd, o flodau'n blodeuo i ffrwythau a llysiau blasus yn barod i'w casglu. Rydym hefyd wedi gweld datblygiadau a thwf gwych yng ngwaith Tyfu Canolbarth Cymru y mis hwn, a hoffem diweddarau chi ar y canlynol:

- Mae'r tîm Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh) wedi bod yn cynyddu eu hymgysylltiad â busnesau'r rhanbarth
- Mae cynllunio ar y gweill i adnewyddu ein Gweledigaeth i adlewyrchu'r newidiadau yn y dirwedd economaidd ers 2020 (ar y gweill!)

Felly, darllenwch ymlaen i ddarganfod mwy gan gynnwys cyfweiliadau gyda busnesau a phrentisiaid Canolbarth Cymru, ein hadran 'Cwrdd â'r tîm' sy'n cynnwys Carwyn Jones-Evans ein Arweinydd Strategol ar y Cyd, a newyddion ariannu allanol.

Helpu i dyfu cyfle yng Nghanolbarth Cymru,

***Tîm Tyfu Canolbarth Cymru***

*\* Peidiwch ag anghofio, os yw eich sefydliad yn rhan o bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, cysylltwch â ni i rannu eich newyddion!*

# Grŵp Clwstwr Busnes Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru



Dyma ddechrau a lleoliad gwych i gyfarfod Clwstwr Busnes cyntaf PSRh Canolbarth Cymru a gynhaliwyd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 15 Mai. Croesawyd busnesau traws-sector i drafod y bylchau sgiliau yn y rhanbarth.

Nod y grŵp yw helpu'r PSRh i nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau a'r materion sy'n effeithio ar fusnesau yng Nghanolbarth Cymru. Mae'r grŵp clwstwr yn is-grŵp ymgynghorol o'r PSRh y mae ei aelodau'n cynnwys arweinwyr diwydiant a busnes.

Os hoffech gymryd ran yn Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, e-bostiwch:

[midwalesrsp@powys.gov.uk](mailto:midwalesrsp@powys.gov.uk)

Mae'r grŵp clwstwr hwn ynghyd â grwpiau clwstwr eraill a sefydlwyd yn ein galluogi i gael sgysiau strategol gyda busnesau, darparwyr hyfforddiant a rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth – gan roi golwg 360-gradd i ni ar sgiliau.

Rydym yn clywed y problemau a'r heriau y mae busnesau, yn eu hwynebu mewn rhai sectorau - recriwtio a chadw, prinder sgiliau, diffyg darpariaeth hyfforddiant berthnasol mewn sectorau penodol, arwahanrwydd digidol, cysylltiadau trafndiaeth i gyd wedi dod i'r amlwg yn ein sgysiau yn rheolaidd. Mae'r wybodaeth hon, a gefnogir gan ein dadansoddiad o wybodaeth am y Farchnad Lafur a'n Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3-Blynedd, gallwn nawr weithredu fel corff strategol a chynrychioli buddiannau'r rhanbarthau y mae busnesau'n eu gwneud ar lefel Llywodraeth Cymru.

## Dod i adnabod busnesau a phrentisiaid Canolbarth Cymru

Ymgysylltu'n agos â busnesau yw un o amcanion craidd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh), i roi llais iddynt ddylanwadu ar flaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth. Yn gynharach eleni, roedd tîm yr PSRh yn awyddus i ddechrau gwneud cysylltiadau yn y rhanbarth ac i ddarganfod mwy am brentisiaethau. Gan weithio gyda AMP Media, siaradodd y tîm â chymysgedd o fusnesau a phrentisiaid o Bowys a Cheredigion a'u ffilmio.

Diolch i'r cyfranwyr canlynol: EOM Ltd, Harrisons, Makefast, Affintiy Healthcare, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys.

### Cyflogi prentisiaid yng Nghanolbarth Cymru

Siaradodd busnesau o'r Canolbarth â'r PSRh am fanteision cael prentisiaid fel rhan o'u gweithlu. Gwylwch y fideo i glywed yr hyn oedd ganddynt i'w ddweud (cliciwch ar y ddolen yn y ddelwedd isod i gael eich cyfeirio at sianel YouTube Tyfu Canolbarth Cymru):



1 - [https://youtu.be/Ync8\\_K0Sooo](https://youtu.be/Ync8_K0Sooo)

### Bod yn brentis yn y Canolbarth

Buom yn siarad â phrentisiaid yn y rhanbarth i ddarganfod pam y daethant yn brentis a beth sydd gan y dyfodol iddynt yng Nghanolbarth Cymru. Gwylwch y fideo i glywed beth oedd ganddynt i'w ddweud (cliciwch ar y ddolen yn y ddelwedd isod i gael eich cyfeirio at sianel YouTube Tyfu Canolbarth Cymru):



2 - <https://youtu.be/RlePx9Rlhs8>

## Partneriaeth addysg Bellach ac Addysg Uwch i drawsnewid hyfforddiant galwedigaethol

Roedd Emma Thomas (Cadeirydd PSRh Canolbarth Cymru) a Louise Grove-White (Rheolwr dros dro PSRh) yn falch iawn o fynychu lansiad Sefydliadau Technegol Prifysgol Cymru yn y Senedd yn diweddar. Mae hwn yn bartneriaeth newydd a fydd yn canolbwyntio ar gyflawni a chymhwyso

dyfarniadau technegol a galwedigaethol uwch, datblygiad proffesiynol a chryfhau ymgysylltiad busnes a chyflogwyr.

Am fwy o wybodaeth ewch i wefan [Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant](#).



3 - Lansiad Sefydliadau Technegol Prifysgol Cymru yn y Senedd

## Cwrdd â'r Tîm

### Carwyn Jones-Evans

Arweinydd Strategol ar y Cyd, Tyfu Canolbarth Cymru

- **Pryd wnaethoch chi ddechrau gyda'r tîm?**

Deuthum i Ganolbarth Cymru ym mis Mai 2019, ar ôl dod o CLILC, a chyn hynny Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd cyn hynny.

Dechreuais swydd flaenllaw Twf a datblygiadau Mawr ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, gan helpu i lunio strategaeth newydd a dull gweithredu ar gyfer swyddogaethau datblygu economaidd yr Awdurdod.

Yn ddiweddarach yn 2019, cefais fy secondio i arwain ar Fargen Twf Canolbarth Cymru, ac rwyf wedi arwain ar waith Tyfu Canolbarth Cymru (TCC) a'r Fargen Dwf i'r ddau Gyngor ers hynny.

- **Allwch chi ddweud mwy wrthym am eich rôl?**

Mae gen i rôl ddeuol, wedi'i rhannu rhwng Cyngor Ceredigion a Thyfu Canolbarth Cymru. Mae fy rôl yn Tyfu Canolbarth Cymru bellach yn fy ngweld yn rhannu Arweinydd Strategol ar y cyd gyda fy nghyd-Aelod, Nicola Williams - lle rydym yn arwain pob agwedd ar waith yn TCC. Lle mae gan y rhanbarthau eraill Gyfarwyddwr Portffolio, mae gennym ddau Arweinydd Strategol.

Rwy'n arwain ac yn rheoli tîm y Cynllun Twf, Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol, yn ogystal â'n swyddogaeth Ynni. Rwy'n cefnogi Nicola gydag arwain tîm yr RSP a'r gwaith ar y Cyd-bwyllgor Corfforaethol.

Ar gyfer Ceredigion, mae gen i gyfrifoldeb am ein cronfeydd Llywodraeth y DU, y Gronfa Adnewyddu Cymunedol a'r Gronfa Ffyniant Bro, a'n tîm economaidd strategol sy'n cynnwys prosiectau digidol a mawr. Rwyf hefyd yn rheoli ein swyddogaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU fel Awdurdod Arweiniol.

- **Beth yw eich blaenoriaethau presennol?**

**Arweinyddiaeth:** Fy mhrif flaenoriaeth yw sicrhau fy mod yn parhau i ddarparu'r cyngor a'r gefnogaeth gywir i'n timau a'n gwneuthurwyr penderfyniadau i lywio'r flwyddyn i ddod. Mae llawer o newidiadau posibl i lywodraethu a chydweithio ar lefel ranbarthol, y bydd angen i ni eu deall ac ymateb iddynt fel un tîm. Byddwn hefyd yn symud y Cynllun Twf o'r cam datblygu i'r gwaith cyflawni – bydd hynny'n dod ar ei heriau ei hun.

**Cydweithio:** Parhau i ddatblygu perthynas waith gref gyda phartneriaid strategol ac allweddol yng Nghanolbarth Cymru a thu hwnt. Bydd yn hanfodol bod pobl yn gwybod ac yn deall ein gwaith a'n swyddogaethau - a'n bod yn parhau i adeiladu ar ein presenoldeb a'n gwelededd ym mhob sector o economi Canolbarth Cymru.

**Cyflawni:** Mae llawer o waith y tîm hyd yma wedi bod yn ymwneud â sefydlu systemau a phrosesau a llywodraethu - bydd y ffocws ar gyfer eleni ymlaen ar gyflawni. Mae ein timau eisoes yn darparu ffrydiau ariannu yn lleol ac yn rhanbarthol draws y bwrdd. Cyn bo hir, bydd Bargen Twf Canolbarth Cymru yn ymuno â'r rhestr honno, ac mae disgwyl i'r cyllid gael ei gadarnhau'n fuan.



- **Pa ddatblygiadau ydych chi wedi'u gweld dros y blynyddoedd?**

Mae ein gwaith yn y Canolbarth wedi dod yn bell. Mae ein gwaith wedi tyfu, mae ein timau wedi tyfu - ac rydym yn dechrau gweld rhywfaint o effaith go iawn mewn nifer o feysydd. Rwy'n llawn edmygedd o fy nhîm, sydd wedi gweithio'n ddi-dor dros nifer o flynyddoedd i barhau i weithio'n galed a pheidio â cholli golwg ar y darlun ehangach.

Rwyf wedi gweld y rhanbarth yn symud o fod â Phartneriaeth wirfoddol yn ôl yn 2015, i fod mewn sefyllfa bellach lle mae ganddo filiynau o bunnoedd o gyllid wrth gyflawni.

- **Beth yweich cyflawniad mwyaf?**

Y gwaith rwyf wedi arwain yng Nghanolbarth Cymru ers 2019 yw fy nghyflawniad proffesiynol mwyaf o bell ffordd. Sicrhau cytundeb gan ein partneriaid ar Weledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru, sefydlu'r drefn lywodraethu ar gyfer y Fargen Dwf a'n Partneriaeth Sgiliau Rhanbarth— i recriwtio ac adeiladu ein timau a'n systemau a hefyd sicrhau a sefydlu cyllid y DU yn llwyddiannus i Gyngor Ceredigion ar y Gronfa Adnewyddu Cymunedol, Y Gronfa Ffyniant Bro a'r Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Rwy'n hynod falch o'r effaith rydw i wedi gallu ei chael i arwain y rhanbarth i ble mae heddiw.

Yn fy mywyd personol, cwblheais y Her Tri Chopa Cymru yn ddiweddar, gan godi arian ar gyfer Tŷ Hafan - gan gwblhau'r her mewn llai na 24 awr ar ddiwrnod poeth iawn!

- **Un gair sy'n crynhoi Tîm Tyfu Canolbarth Cymru:**

**Yn anhygoel** - rwy'n ffodus iawn i allu arwain a gweithio gyda grŵp mor wych o bobl. Ymroddedig a gweithio'n galed – maent wedi ymateb i bob her yn eu camau ac yn parhau i adeiladu gwaith y tîm tuag i fyny ac allan.



## Newyddion eraill

### Pecyn Cymorth Ynni Busnes

Mae Warwick Manufacturing Group (WMG) ym Mhrifysgol Warwick wedi creu [Pecyn Cymorth Ynni Cymorth Busnes](#) i ddarparu mynediad hawdd i arbenigwyr ac offer BBACh sydd wedi'u lleoli yn y DU, gan eich helpu i wneud gostyngiadau sylweddol i'ch defnydd o ynni mewn fframiau amser byr. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys meysydd fel:

- Mewnwelediadau sy'n cael eu gyrru gan ddata i'ch defnydd o ynni
- Helpu i nodi gwelliannau cynllunio cynhyrchu
- Pennu mesurau arbed costau
- Darganfyddwch gyfleoedd i leihau eich ôl troed carbon a gweithio tuag at Sero Net
- Arbenigedd gan dîm o arbenigwyr

Darganfyddwch fwy ar wefan Prifysgol Warwick:

<https://warwick.ac.uk/fac/sci/wmg/business/innovationexperience/reduce-energy-consumption>



## Ymestyn Gwarant Horizon Europe y DU

Mae'r warant wedi'i hymestyn i gwmpasu holl alwadau Horizon Europe sydd â dyddiad cau terfynol ar, neu cyn 30 Medi 2023.

Bydd ymgeiswyr cymwys a llwyddiannus i Horizon Europe yn derbyn gwerth llawn eu cyllid yn eu sefydliad lletyol yn y DU am oes eu grant. Mae mwy o wybodaeth [yma](#).

## Cwmpas - Arolwg Cysylltedd Cymru

Mae Cwmpas yn estyn allan at unigolion o bob rhan o Gymru sy'n profi cyflymder band eang araf iawn (o dan 4Mbps) ac yn wynebu problemau cysylltedd rheolaidd.

Bydd yr ymatebion a'r adborth yn cael eu bwydo i mewn i adroddiad i Lywodraeth Cymru i archwilio opsiynau ar gyfer cefnogi cymunedau mewn ardaloedd sydd â chysylltedd heriol.


Cliciwch ar y ddolen i gymryd rhan yn yr [arolwg pwysig](#) hwn

## Solutions Catalyst' ArloesiAber - Cystadleuaeth Talebau ar agor

Mae 'Solutions Catalyst' ArloesiAber a gefnogir gan [UKRI - BBSRC](#) yn rhaglen sy'n anelu at gyrru arloesedd a'ch cysylltu â rhwydwaith Campws UKRI ehangach. Os byddwch yn llwyddiannus yna bydd y pecyn cymorth yn cynnwys y canlynol:

- Ymgynghoriaeth academaidd Prifysgol Aberystwyth
- Mynediad i gyfleusterau a chymorth technegol yn ArloesiAber
- Defnyddiau traul ar gyfer ymchwil a datblygu
- Gweithdai

Bydd digwyddiad briffio ar gyfer sefydliadau sydd â diddordeb mewn darganfod mwy am y gystadleuaeth yn cael ei gynnal ar 29fed o Mehefin 2023 am 10.30yb. Am y gwybodaeth llawn, ewch i wefan [ArloesiAber](#).



## Edrych ymlaen

A oes angen i chi ddal i fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Dyma nodyn i'ch atgoffa o ble y gallwch gael gfael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan [Cyngor Sir Powys](#).
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein [gwefan](#).

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

<https://twitter.com/growingmidwales>

[www.linkedin.com/company/growing-mid-wales](http://www.linkedin.com/company/growing-mid-wales)

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e-bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at [tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru](mailto:tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru)







UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfeydd Strwythurol a  
Buddsoddi Ewropeaidd**  
**European Structural  
and Investment Funds**